**LC241**

# Cynulliad Cenedlaethol Cymru
# The National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Rheoliadau Grantiau Adleoli (Ffurflenni Cais) (Diwygio) (Cymru) 2001**

**Y Cefndir**

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio'r ffurflenni (dwyieithog) sydd i gael eu defnyddio ar gyfer y grant adleoli sy'n daladwy o dan adrannau 131 i 140 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996.

Cafodd darpariaethau tebyg eu gwneud ar gyfer Lloegr yn OS 2001/780 a daethant i rym ar 2 Ebrill 2001.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Nid oes dim pwyntiau wedi'u nodi fel materion y mae angen i'r Pwyllgor wahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig iddynt.

**Sylwadau Cyffredinol**

**Fformat dwyieithog**

Mae Rheoliad 2 yn darparu ar gyfer diwygio'r rheoliadau ffurflenni Cymraeg fel yn y testun Cymraeg, ac ar gyfer diwygio'r rheoliadau ffurflenni Saesneg fel yn y testun Saesneg. Mae hyn yn dilyn fformat y rheoliadau diwygio diwethaf (OS 2000/1710 (W.116)), ac yn cyd-fynd â sylwadau a gyflwynwyd gan y Pwyllgor Deddfau mewn perthynas â rheoliadau diwygio cynharach (OS 1999/3469 Cy.55).

Wrth gyflwyno sylwadau ar reoliadau 1999 teimlai'r Pwyllgor fod y fformat dwyieithog cynhwysfawr hwnnw yn cynnwys dyblygu diangen gyda'r posibilrwydd o greu dryswch.

Er hynny, nodir bod cronfa ddata Butterworths yn dweud bod y diwygiadau a wnaed gan OS 2000/1710 heb eu hymgorffori, er bod y diwygiadau cynharach a wnaed gan reoliadau 1999 wedi'u hymgorffori.

Wrth ailedrych ar hyn yng ngoleuni'r uchod, rhaid i'r Pwyllgor ddod i'r casgliad y gallai fod yn fuddiol dychwelyd at fformat Rheoliadau 1999.  Y pwynt yw mai uniaith Gymraeg yw'r cyfarwyddiadau ar gyfer creu'r newidiadau i'r ffurflenni Cymraeg yn y rheoliadau presennol.  Gall hyn olygu bod y rhai sy'n gyfrifol am gynhyrchu cronfeydd data masnachol a thestunau cyfun yn gweld nad oes ganddynt adnoddau ar gyfer cynhyrchu testun Cymraeg cyfun.

Er gwaethaf sylwadau'r Pwyllgor yn ei adroddiad ym mis Tachwedd 1999 (LC22), awgrymir felly ei bod yn ddigon poibl bod y fformat a ddefnyddiwyd yn Rheoliadau 1999 yn briodol pan fydd ffurflenni rhagnodedig Cymraeg a Saesneg ar wahân yn cael eu diwygio. Fel yn Rheoliadau 1999, mae modd osgoi dyblygu drwy ddefnyddio fformat tudalen llawn ar gyfer mewnosod blociau o destun.

**Y Nodyn Esboniadol**

Mae cyfeiriadau yn dal i ddisgwyl eu mewnosod yn y pedwerydd paragraff.  Bydd angen gwneud hyn cyn cyhoeddi.

**Mick Bates AC**
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

8 Mai 2001